SFLWS29

Prosesu archebion ar gyfer cwsmeriaid mewn gweithrediadau logisteg

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â phrosesu archebion ar gyfer cwsmeriaid mewn gweithrediadau logisteg. Mae'n cynnwys nodi gofynion archebu cwsmeriaid a phroblemau gyda'r archeb. Mae hefyd yn cynnwys prosesu'r wybodaeth y mae'n rhaid ei throsglwyddo i gwsmeriaid.

Mae'r safon hon yn berthnasol i bob gweithredwr ar bob lefel mewn gweithrediadau logisteg. Gallai gweithredwyr, er enghraifft, fod yn gweithio ym maes warws a storio, trafnidiaeth, neu anfon nwyddau ymlaen.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael gwybodaeth berthnasol am ofynion y cwsmer ar gyfer archebu nwyddau mewn gweithrediadau logisteg
2. darparu gwybodaeth ddosbarthu i gwsmeriaid
3. trosglwyddo archebion a gwybodaeth anfonebu i gydweithwyr perthnasol
4. ymateb i ymholiadau am gynnydd yr archeb
5. hysbysu cwsmeriaid os na ellir dosbarthu eu harchebion o fewn yr amser a gytunwyd yn wreiddiol
6. nodi ac ymateb i broblemau yn prosesu archebion
7. storio manylion cwsmeriaid yn ddiogel a chadw cyfrinachedd yn unol â gofynion sefydliadol a chyfreithiol
8. cofnodi gwaith a wnaed yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
9. cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol a gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu perthnasol yn ymwneud â phrosesu archebion ar gyfer cwsmeriaid

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i gael gwybodaeth am ofynion y cwsmer ar gyfer archebu nwyddau mewn gweithrediadau logisteg
2. yr amrywiaeth o gwsmeriaid yr ydych yn prosesu archebion ar eu cyfer
3. y systemau rheoli ac archebu stoc perthnasol a ddefnyddir gan eich sefydliad
4. y wybodaeth berthnasol sydd ei hangen gan gydweithwyr fydd yn cyflawni'r archebion
5. yr amser y mae'n ei gymryd i gyflawni archebion ar gyfer nwyddau gwahanol a ddarperir gan eich sefydliad, a beth i'w wneud os na ellir cyflawni'r ffrâm amser yma
6. y wybodaeth sydd ei hangen gan y cydweithwyr fydd yn cyhoeddi'r anfoneb
7. sut i storio manylion personol ac ariannol cwsmeriaid yn ddiogel, sut i gadw cyfrinachedd a gofynion deddfwriaeth diogelu data
8. y gofynion arbennig sy'n berthnasol i archebion
9. rolau a chyfrifoldebau cydweithwyr mewn gweithrediadau logisteg
10. y systemau gwybodaeth a chofnodi a ddefnyddir gan y sefydliad a'r gofynion ar gyfer cynnal cofnodion
11. y gweithdrefnau sefydliadol a'r gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu perthnasol yn ymwneud â phrosesu archebion ar gyfer cwsmeriaid

## Geirfa

Cwsmeriaid: mewnol, allanol

Gofynion cwsmeriaid: amser dosbarthu, cyfeiriad, enw, rhif cyswllt

Gwybodaeth ddosbarthu: amser dosbarthu, cynnydd

Problemau yn prosesu archebion: taliadau, meintiau stoc, stoc wedi ei niweidio

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol, rheolwr llinell, goruchwyliwr, cwsmer/cleientiaid

Gofynion arbennig: lleoliadau dosbarthu, amserau, cyfeiriadau

Gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu: rheoliadau diogelwch, codau ymarfer, cyfyngiadau llwyth, rheoliadau amser gweithio, rheoliadau trafnidiaeth

SFLWS29

Prosesu archebion ar gyfer cwsmeriaid mewn gweithrediadau logisteg

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Logistics |
| **RCU gwreiddiol** | SFLWS29 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Warws a Dosbarthu, Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu, Manwerthu a chyfanwerthu, Galwedigaethau Trin a Storio Nwyddau, Galwedigaethau Storio Nwyddau Elfennol |
| **Cyfres/Set** | Warws a Storio |
| **Geiriau Allweddol** | prosesu; archebion; cwsmeriaid; cleientiaid |